
BWLETIN POLISI CYTÛN

HAF 2017



YR EGLWYSI YNGHANOL Y DRAFODAETH AM BREXIT



Cyfarfu [Gweithgor Cytûn am Gymru](#) ac Ewrop â Prif Weinidog Cymru ar Fehefin 7. Roedd hwn yn gyfarfod arbennig ym mhresenoldeb ysgrifenyddion cyffredinol cynghorau ecwmenaidd gwledydd Ewrop (y cyrff sy'n cyfateb â Cytûn mewn gwledydd eraill). Cafwyd trafodaeth agored a bywiog dros ben am oblygiadau penderfyniad y Deyrnas Unedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac am gynlluniau Llywodraeth y DU ar y pryd o ran sut i wneud hynny. Roedd nifer o sylwadau Mr Jones yn rhagflas o [Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru Brexit a Datganoli](#) a gyhoeddwyd ar Fehefin 15.

Y diwrnod wedyn fe gafwyd Etholiad Cyffredinol ac fe gafwyd canlyniad annisgwyl (gweler tud. 2). Wrth i'r Bwletin fynd i'r wasg nid yw'n gwbl eglur sut y bydd y newid yn Llywodraeth y DU a'i sefyllfa Seneddol yn effeithio ar y broses ymadael. Mae Gweithgor



Cytûn eisoes yn trefnu cyfarfod â rhai o'r Aelodau Seneddol newydd o Gymru, o bob plaid. Mae hyn yn dilyn cyfres debyg o gyfarfodydd gydag Aelodau Cynulliad o bob plaid yn y misoedd blaenorol.

Mae pob un o'r ACau y cyfarfuom â nhw, gan gynnwys y Prif Weinidog, wedi ein

hannog i barhau â'n gwaith fel eglwysi yn y maes hwn. Maent yn unfrydol wedi awgrymu y dylai'r eglwysi geisio ffyrdd o gymodi pobl a bleidleisiodd yn wahanol yn y refferendwm ac sydd o hyd yn teimlo'n gryf am y pwnc, a chanfod ffyrdd o wrando ar gymdogaethau lleol am eu dyheadau a'u hofnau i'r dyfodol. Gall eglwysi, dywedwyd wrthym droeon, fod mewn lle unigryw i sicrhau trafodaeth gytbwys, gwâr ac agored am y pynciau hyn.

I'r perwyl hwnnw rydym yn awyddus i wahodd grwpiau Cytûn neu grwpiau rhyng-eglwysig eraill yn lleol i'n gwahodd i gynnal cyfarfodydd i wrando yn eu hardaloedd nhw. Mae gennym nifer o wahoddiadau eisoes, ond rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau gwahoddiadau gan ardaloedd lle y bu i fwyafrif y boblogaeth bleidleisio i adael yr UE. Cysyllter â Swyddog Polisi Cytûn (manylion ar y dudalen gefn) os hoffwch wybod mwy.

Yn y cyfamser, ynghanol berw yr holl ddatblygiadau hyn buom yn falch o gael cwmni Chiron Hooson, myfyriwr interniaeth o Brifysgol Caerdydd yn swyddfa Cytûn, yn llunio adroddiad manwl ar flwyddyn gyntaf y Gweithgor ac ymatebion eglwysi eraill ledled Ewrop, ac fe fydd yr adroddiad yna ar gael i eglwysi ac i'r cyhoedd trwy wefan Cytûn tua diwedd yr haf.



Diweddariad ystadegol: Troseddau yn erbyn Cristnogion yng Nghymru

Rydw i wedi derbyn ymatebion i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i bob awdurdod heddlu yng Nghymru yn gofyn am niferoedd y troseddau casineb ar sail crefydd, fesul crefydd, a adroddwyd iddynt ers 2007 pryd y daeth y Ddeddf Casineb Hiliol a Chrefyddol (2006) i rym. Gofynnais hefyd am wybodaeth am ganlyniadau adrodd y troseddau hyn. Dim ond dau allan o bedwar awdurdod heddlu Cymru fu'n cofnodi union grefydd dioddefwyr cyn Ebrill eleni. Yn achos y ddau sydd wedi bod yn cofnodi, dim ond mewn rhai achosion unigol y ceir data. Ers Ebrill 2017 rhaid i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr ofyn i ddiodefwyr honedig troseddau casineb ar sail crefydd beth yw eu crefydd, er mwyn gwella'r wybodaeth ar ymosodiadau ar bobl o bob crefydd. (Mae dewis gan bobl prun ai ydynt am ddatgan eu crefydd neu beidio.) Mae hyn oherwydd Strategaeth Gwrth-Eithafiaeth llywodraeth San Steffan, a gyhoeddwyd yn Hydref 2015.

Mae hyn o ddiddordeb am fod lle i amau fod yna nifer o ymosodiadau yn erbyn Cristnogion, yn enwedig o leiafrifoedd ethnig. (Mae nifer fawr o leiafrifoedd ethnig Cymru'n Gristnogion o ran ymlyniad yn ôl Cyfrifiad 2011.) Gwyddys hefyd y gwnaed rhai gwallau wrth gofnodi crefydd dioddefwyr yn rhai o heddluoedd Lloegr.

Rydw i hefyd wedi derbyn ymatebion i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i bob awdurdod heddlu yng Nghymru yn gofyn am niferoedd a mathau'r troseddau yn erbyn clerigwyr a gweithwyr lleyg Cristnogol ers 2007. Ar y cyfan nid yw ymosodiadau ar glerigwyr neu weithwyr Cristnogol neu ar adeiladau Cristnogol yn cael eu hadrodd gan Gristnogion fel troseddau casineb. Fel yn ardaloedd awdurdodau heddlu Lloegr, mae'r niferoedd blynyddol dipyn yn uwch na'r niferoedd o droseddau casineb yn erbyn Cristnogion. Gobeithiaf gynhyrchu tablau'n seiliedig ar y data unwaith ei fod i gyd wedi dod i fewn maes o law.

Dr. Carys Moseley

ETHOLIAD CYFFREDINOL 2017



Er mai pedwar Aelod Seneddol newydd sbon a etholwyd yng Nghymru ar Fehefin 8 – ac roedd un o'r rheiny yn aelod a gollodd ei sedd ddwy flynedd yn ôl yn ei hadennill – teimlad y sylwebwyr oedd fod llawer iawn wedi newid o ran sefyllfa'r pleidiau.

Mae Cytûn wedi ysgrifennu at yr ASau newydd a gafodd eu hethol am y tro cyntaf, a hefyd at yr Aelodau hynny a benodwyd i fainc blaen eu pleidiau. Dychwelodd Alun Cairns AS i fod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Guto Bebb AS i fod yn Is-Ysgrifennydd Gwladol, ond mae'r Arglwydd Bourne wedi ymadael â Swyddfa Cymru. Mae Christina Rees AS yn parhau yn Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol, Gerald Jones AS yn Weinidog Cysgodol am Gymru a Nia Griffith AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol dros Amddiffyn. Daw Owen Smith AS yn Ysgrifennydd

Gwladol Cysgodol dros Ogledd Iwerddon ac etholwyd Liz Saville-Roberts yn Arweinydd Seneddol Plaid Cymru. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio â nhw a'r holl ASau eraill sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru.

Beth am i'ch grŵp Cytûn lleol neu'ch cynulleidfa chi ysgrifennu at eich Aelod Seneddol newydd i'w croesawu i'w gwaith, addo gweddïo drostynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, ac yn eu gwahodd i un o'ch digwyddiadau dros yr haf?

ARAITH Y FRENHINES

Yn dilyn yr etholiad, ar Fehefin 21 fe ddechreuodd sesiwn newydd Senedd San Steffan gydag [araith y Frenhines](#). Yn ôl y disgwyl, mae'r prif fesurau yn ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae yna wyth mesur ynghylch hyn:

- Y Bil Diddymu, fydd yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac yn cymhwyso'r rhan fwyaf o gyfreithiau Ewropeaidd (ond nid y Siarter Hawliau Sylfaenol) i gyfraith y DU neu – lle bo'n briodol - gyfraith ddatganoledig. Fe ddywedir y bydd yna drafodaethau gyda'r gwledydd datganoledig am hyn, ond nid yw eu rôl yn gwbl eglur. Mae [Papwr Gwyn Llywodraeth Cymru Brexit a Datganoli](#) yn mynegi pryderon am y broses hon ac yn awgrymu sut i'w gwella.
- Bil Tollau, i ganiatáu i'r DU gasglu tollau mewnforio ar ôl gadael Undeb Tollau'r UE.
- Bil Masnach, i ganiatáu i'r DU fabwysiadu polisi masnach annibynnol wrth ymadael.
- Bil Mewnfudo, yn caniatáu i'r Llywodraeth ddiddymu'r "rhyddid i symud", a gwneud dinasyddion yr UE yn ddarostyngedig i gyfraith mewnfudo'r DU. Fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ar Fehefin 26 fanylion ei "chynnig" parthed dinasyddion yr UE sydd yn byw yn y DU i'w drafod gyda'r UE. Mae'r maes yn fater o ofid arbennig i'r eglwysi, yn enwedig am fod gennym lawer o aelodau sydd yn ddinasyddion yr UE.
- Bil Pysgodfeydd, i ganiatáu i'r DU reoli pysgota yn ei dyfroedd tiriogaethol. Fe all y bydd hefyd yn gweithredu addewid maniffesto'r Ceidwadwyr i dynnu allan o [Gonfensiwn Llundain 1964](#), sydd yn caniatáu i nifer o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys y DU, gael mynediad i bysgodfeydd ei gilydd. Mae pysgodfeydd yn ddatganoledig, ac nid yw'n eglur sut y cynhwysir y Cynulliad Cenedlaethol yn hyn.
- Bil Amaeth, a fydd yn gosod trefniadau'r DU i gefnogi amaethyddiaeth a'r amgylchedd wedi ymadael â'r UE, gan gynnwys dros dro gosod fframwaith ar gyfer y meysydd hyn a fydd yn debyg iawn i fframwaith yr UE. Mae Llywodraeth y DU yn dweud y byddant yn ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig, ond mae Papwr Gwyn Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn credu i'r materion hyn gael eu datganoli ac felly na ellir cyflwyno fframwaith y DU heb gydsyniad y Cynulliad.
- Bil Diogelwch Niwclear, i gymryd lle aelodaeth y DU yn nhrefniadau Euratom.
- Bil Sanctsiynau Rhyngwladol, i ganiatáu i'r DU osod ei sanctsiynau ei hun ar wledydd eraill ar ôl ymadael â'r UE.

Mae gan dri o fesurau eraill Araith y Frenhines gyswllt â Brexit:

- Y Bil Gwarchod Teithio, fydd yn ymestyn cynllun ATOL ar gyfer teithwyr i drefniadau arlein a hefyd i gynnwys materion a warchodir ar hyn o bryd gan gyfraith yr UE; a
- Y Bil Gwarchod Data, fydd yn diwygio Deddf Gwarchod Data Act 1998 ac yn gosod trefniadau newydd gan y DU yn lle rhai o'r trefniadau UE presennol.
- Bil Diwydiant y Gofod, sy'n cynnwys rhai mesurau i ymdrin â'r ffaith fod peth o waith Asiantaeth Ewrop y Gofod (megis [rhaglen Galileo](#)) yn gyfyngedig i aelodau'r UE.

Roedd llawer o'r materion eraill a gyhoeddwyd naill ai yn rhai cymharol annadleuol, neu yn gweithredu mesurau cyllidebol a gytunwyd gan y Senedd flaenorol. Ond yn yr adran am gydraddoldebau cyfeirir at [A Review into Opportunity and Integration](#) (Adroddiad Casey), a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2016. Fe fynegodd hwn y farn fod rhai cymunedau crefyddol wedi'u hynysu o brif ffrwd bywyd Prydeinig, a mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno "strategaeth integreiddio" i fynd i'r afael â hyn. Cyfeirir hefyd at sefydlu Comisiwn ar Eithafiaeth, a mae'r [Gynghrair Efengylaidd](#) wedi mynegi gofid am sut y bydd "eithafiaeth" yn cael ei diffinio. Fe fydd Cytûn hefyd yn monitro'r datblygiadau hyn yn ofalus, a sut y gallant effeithio ar ryddid cred a gweithredu crefyddol.

Mae Cytûn yn falch o weld na wireddwyd awgrymiadau a gafwyd yn y wasg, ac yn ystod [yr ymgyrch etholiadol](#), y byddai'r Llywodraeth o bosibl yn ceisio newid deddfwriaeth hawliau dynol yn ystod y Senedd hon. Roedd mudiad heddwch ein haelod enwad, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, wedi [mynegi gofid](#) arbennig am yr awgrym hwn.

CYFREITHIAU NEWYDD I GYMRU

Ar Fehefin 27 fe gyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, raglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18. Mae'n cynnwys pum bil:

- Bydd y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwerthu alcohol am lai na phris penodol yn ôl cryfder a chyfaint. Mae rhai o aelodau Cytûn, yn enwedig Byddin yr Iachawdwriaeth, [wedi bod yn galw ers tro](#) am deddfu, oherwydd tystiolaeth fod cysylltiad rhwng yfed lefelau niweidiol ac alcohol rhad.
- Bil i atal landlordiaid ac asiantau rhag codi ffioedd annheg rhag blaen ar denantiaid yn y sector rhentu preifat. Fe groesawyd hyn gan grwpiau ymgyrchu megis [Shelter Cymru](#). Meddai [Housing Justice Cymru](#), sy'n aelod yn Cytûn, "rydym yn croesawu'r gwaharddiad hwn mewn egwyddor. Ond rydym yn cydnabod y gall fod landlordiaid bychain sydd yn gorfod codi am gostau teg. Gall hyn fod yn wir am eglwysi sy'n rhentu eiddo er mwyn creu incwm. Ymhob achos dylai fod yn dryloyw i denantiaid beth fydd angen iddynt dalu, ac ni ddylid manteisio arnynt byth."
- Bil yn paratoi'r ffordd ar gyfer 30 awr o ofal plant am ddim i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio. Bydd yn cefnogi'r [cynlluniau peilot](#) o fis Medi ac yn galluogi cyflwyno'r cynnig llawn erbyn 2020, drwy greu trefn ceisiadau a gwiriadau cenedlaethol.
- Deddfwriaeth i ddiwygio rheolaethau ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â newid technegol wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn [aiddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'r sector cyhoeddus](#). Mae'r Bil yn cynnig diwygio rheolaeth llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog dros landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan alluogi'r Swyddfa Ystadegau i ailystyried yr aiddosbarthiad, a'u dychwelyd i'r sector preifat.
- Deddfwriaeth i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Meddai'r Llywodraeth, "Bydd y Bil yn sefydlu perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, creu mwy o dryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau mwy o gydweithio drwy drefniadau gweithio rhanbarthol gorfodol." Mae hyn yn dilyn [cyfres o ymgynghoriadau](#) y bu Cytûn yn rhan ohonynt, ac edrychwn ymlaen at ymateb i'r cynigion manwl. Mae eglwysi lleol yn ymwneud yn rheolaidd â Llywodraeth leol, ac yn gwerthfawrogi perthynas agored a thryloyw gyda'u cynghorau lleol.

Yn ogystal, fe fydd yna ymgynghori am ddau faes posibl arall lle gellid deddfu:

- Mae'r Llywodraeth yn ceisio cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer deddfwriaeth i gael gwared ar 'gosb resymol' fel amddiffyniad (parthed smacio plant), gyda'r bwriad o gyflwyno Bil yn 2018-19. Mae hwn yn fater lle mae gan gymunedau ffydd ystod eang o farn, a bydd Cytûn yn gweithio i sicrhau fod eglwysi a mudiadau Cristnogol ar bob ochr i'r ddadl gyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori.
- Bil Parhad, "i ddiogelu buddiannau Cymru" yn ystod y broses Brexit, os na fydd Llywodraeth y DU yn "parchu'r setliad datganoli." Bydd [Gweithgor Cytûn am Gymru ac Ewrop](#) yn parhau i fonitro'r materion hyn yn fanwl.

Meddai Swyddog Polisi Cytûn, Gethin Rhys, "Gyda dim ond pum bil wedi'u cynnig ar gyfer 2017-18, mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru am gadw amserlen y Cynulliad yn glir ar gyfer materion Brexit. Mae'n syndod nad oes sôn am weithredu Adolygiad Diamond am ariannu myfyrwyr nac Adolygiad Hazelkorn am addysg ôl-16 yng Nghymru.

"Ymhlith mesurau eraill yn y [rhaglen pum mlynedd y Llywodraeth](#) sydd wedi eu gohirio mae cryfhau Mesur yr Iaith Gymraeg a deddfu er diogelu asedau cymunedol."

Mae Cytûn yn cynnull cyfarfodydd rheolaidd y Grŵp Laser gyda swyddogion eglwys a chymdeithas (cyflogedig a gwirfoddol) ein haelod eglwys a mudiadau, a mudiadau Cristnogol eraill megis y Gynghrair Efengylaidd a Chymdeithas y Plant. Mae'r cyfarfodydd hyn yn monitro deddfwriaeth Cymru yn fanwl. Ceir rhagor o fanylion gan y Swyddog Polisi (gweler y dudalen gefn).

Eglwysi dementia gyfeillgar

Fe fu ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru am [Ddrafft strategaeth ddementia genedlaethol](#) yn fodd i Cytûn yn ei ymateb dynnu sylw at y nifer fawr o eglwysi ar draws yr enwadau sy'n anelu at fod yn ddementia gyfeillgar, gan fynd ati yn fwriadol i groesawu a chynnwys yn eu bywydau y sawl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.



Hawlfraint delwedd yr Eglwys yng Nghymru

Mae pum grŵp o eglwysi wedi derbyn arian gan Brifysgol Bangor i sefydlu gweithgareddau megis caffis y cof, oedfaon hygyrch i bobl â dementia ac ymweliadau â chartrefi gofal. Roedd y cynllun yn ganlyniad i gynhadledd arweiniwyd gan offeiriad wedi ymddeol sy'n astudio dementia ac ysbrydolrwydd ym Mangor. Mae'r prosiectau wedi eu lleoli yn

Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'r Parch. Bob Friedrich, sydd yn astudio ar gyfer PhD yn y pwnc, wedi dewis croesdoriad o eglwysi ar gyfer y cynllun. Meddai, "Mae hwn yn gyfle gwych i weithio gydag eglwysi i'w helpu i gynnig prosiectau penodol fydd yn cwrdd ag anghenion eu cymuned leol tra'u bod yn dod yn ddementia gyfeillgar."

Meddai Sarah Wheat, swyddog ymgysylltu'r esgobaeth, y gallai eglwysi gynnig "lleoliadau pwysig" ar gyfer cefnogaeth gyda dementia. "Mae'r adeiladau, yr oedfaon, yr emynau yn aml o hyd yn gyfarwydd i bobl â dementia a chyda chefnogaeth wirfoddol fe allant ddarparu gofod a chyfleusterau amhrisiadwy."

Ymhlith lluo o enghreifftiau eraill y clywsom amdanynt oedd:

- Bethesda, Capel y Bedyddwyr, Rogerstone, sydd â lladmerydd dementia fu'n rhedeg sesiynau [ffrindiau dementia](#) ar gyfer yr aelodau, a'r timau Croesawu a Bugeilio. Cynllunnir mwy o'r sesiynau hyn, gyda'r bwriad o fod yn eglwys ddementia gyfeillgar cyn bo hir.
- Mae Cylchdaith Fethodistaidd Bryniau a Dyffrynnoedd Gwent wedi penodi Graeme Russell yn lladmerydd dementia, a bu'n cynnal sesiynau ar gyfer eglwysi lleol yn y Gylchdaith a chydag Eglwysi Ynghyd yng Nghaerllion a'r Fro ac eglwysi'r URC a'r Bedyddwyr yng Nghwmbwrân.
- [Tŷ Croeso](#) yw asiantaeth yr eglwys yng nghylch Clydach, ac mae'n trefnu sesiynau 'te ac emynau' yn rheolaidd i'r sawl sy'n byw mewn cartrefi preswyl lleol, yn cynnwys y rhai gyda dementia. Cyflawnir y gwaith yn gyd-enwadol.
- Mae Eglwys y Bedyddwyr yn Albany Road, Caerdydd, yn cynnal caffi '[Forget me Not](#)' ar gyfer y sawl gyda dementia a'u gofalwyr, ac mae'n siarad â busnesau lleol am fod yn gymuned ddementia gyfeillgar.
- Yng nghartref elusen yr Eglwys Fethodistaidd MHA yn Aberystwyth, [Hafan Y Waun](#), mae yna uned a chanolfan ddydd arbenigol sy'n cefnogi'r sawl sydd â dementia. Mae eglwysi sawl enwad yn lleol yn ymweld â'r uned ac yn cynnal oedfaon yno.

Mae Cytûn hefyd wedi bod yn rhan o'r ymgynghori ar bob cam o'r ymgynghori am [Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru](#) gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Cynigiom sylwadau ar bob rhan o'r pecyn, gyda phwyslais arbennig ar gydnabod anghenion a dewisiadau ysbrydol a chrefyddol pobl â dementia a'u teuluoedd, a rydym yn falch o weld cydnabod y rheiny yn yr adnodd hwn.

Mae'r fenter gymdeithasol Pictures to Share newydd lansio adnodd yn Gymraeg a Saesneg i'r sawl sy'n gweithio gyda dementia yng Nghymru, o'r enw [Hen Wlad fy Nhadau](#), a all fod o ddefnydd i eglwysi a mudiadau eraill sydd am ymwneud â'r math yma o waith.



Good Neighbours My World Depends On Us

**Cymdogion Da
Mae fy byd i yn
dibynnu arnom ni**

22 - 29 Hydref 2017

Mae Wythnos Un Byd yn eich gwahodd i archwilio sut y gallwn fod yn gymdogion da yn lleol ac yn fyd-eang.

Cewch weld mwy am y thema ar y [dudalen thema](#) ar y [Wefan newydd](#).

Elfen allweddol i thema eleni yw codi ymwybyddiaeth am:

- sut mae ein bywydau, gweithredoedd a phenderfyniadau pob dydd yn effeithio ar ein cymdogion byd-eang – a hynny yn aml er gwaeth;
- beth mae angen i ni ei wneud i wella'r effaith honno trwy fod yn gymdogion da

a sut yr ydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig er mwyn tynnu sylw at anghenion ein cymdogion byd-eang.

Ein Partneriaid:



Mae Wythnos Un Byd yn aelod o:



CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.cymru

[@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2017. Cyhoeddir y Bwletin nesaf ym Medi 2017.